

**Sgiliau a Gwirfoddoli Cymru (SGC)**



**Polisi Iaith Gymraeg**

**Adolygwyd Ebrill 2022  
Cyfieithwyd Ebrill 2020**

	<b>Polisi iaith Gymraeg</b>
<b>1.0</b>	<b>Cyflwyniad</b>
<b>1.1</b>	<p>Mae SGC yn cydnabod bod gan y Gymraeg statws yng Nghymru, a gwmpesir gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'n cydnabod bod gan y cyhoedd yng Nghymru iaith Gymraeg ac felly mae'n rhaid i'r cyhoedd derbyn gwasanaeth dwyieithog gan y sefydliadau cyhoeddus sy'n gweithio yng Nghymru.</p> <p>I gydnabod hyn, a ffactorau cysylltiedig eraill megis hawliau dynol, mae SGC yn cydnabod yr angen i ddarparu dewis rhagweithiol o iaith i wirfoddolwyr.</p> <p>At hynny, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, mae SGC yn ceisio meithrin dwyieithrwydd yng Nghymru, ac ymestyn dewisiadau a chyfleoedd cadarnhaol i staff, asiantaethau yn y maes ac i'r cyhoedd yn gyffredinol.</p>
<b>2.0</b>	<b>Cwmpas y Polisi</b>
<b>2.1</b>	<p>Mae'r polisi hwn yn berthnasol i</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Holl wirfoddolwyr SGC</li> <li>• Yr holl staff sy'n cefnogi SGC</li> <li>• Ymddiriedolwyr SGC</li> </ul>
<b>2.2</b>	<p>Y gobaith yw y bydd eich holl gwestiynau sy'n ymwneud â'r polisi hwn wedi'u hateb yn glir. Os oes gennych unrhyw gwestiynau sy'n parhau heb eu hateb, dylech gyfeirio at y Rheolwr SGC.</p>
<b>3.0</b>	<b>Darparu Gwasanaeth Dwyieithog</b>
<b>3.1</b>	<p>Cymraeg a Saesneg yw ieithoedd swyddogol SGC. Mae SGC wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon yr un mor uchel yn Gymraeg a Saesneg.</p> <p>Mae SGC yn credu trwy ddatblygu ei bolisi iaith Gymraeg ei hun, y bydd SGC yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• helpu i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i'w Aelodau a phobl Cymru;</li> <li>• helpu i gydnabod natur ddwyieithog Cymru;</li> <li>• codi apêl y sefydliad yn y sector ehangach;</li> <li>• arddangos ewyllys da ac, yn ei dro, ddenu gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg;</li> <li>• anfon neges o arfer da i eraill yn y trydydd sector gan lynu wrth ei pholisi cyfle cyfartal ei hun.</li> </ul> <p>Mae SGC wedi ymrwymo i sicrhau bod y ddwy iaith yn cael ystyriaeth gyfartal yn ei gweithgareddau. Mae SGC yn gweithio tuag at adlewyrchu patrwm ieithyddol y cymunedau y mae'n gweithredu ynddynt.</p> <p>Bydd SGC yn annog ymhlith ei gwirfoddolwyr, ei Ymddiriedolwyr a'r staff sy'n cefnogi SGC, ymwybyddiaeth gadarnhaol o'r iaith Gymraeg a dwyieithrwydd, a dealltwriaeth ohoni, fel agwedd werthfawr ar y Gymru fodern.</p>
<b>4.0</b>	<b>Darparu Gwasanaethau</b>
<b>4.1</b>	<b>Polisiau a Mentrau Newydd</b>

	<p>Bydd polisiâu a mentrau newydd a fabwysiedir yn hybu ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg lle bynnag y bo'n bosibl ac yn symud y sefydliad yn agosach at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb ar bob cyfle.</p> <p>Bydd yr holl staff sy'n cefnogi SGC yn cael gwybod am ofynion y polisi iaith Gymraeg.</p>
<b>4.2</b>	<p><b>Safon Gwasanaeth Cymraeg</b> Mae SGC wedi ymrwymo'n gadarn i ddarparu gwasanaeth o safon gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'n croesawu cysylltiadau yn y ddwy iaith.</p> <p>Y nod fydd darparu gwasanaeth o safon uchel ym mhob agwedd ar waith SGC, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn unol â'i ymrwymadau i'r cynllun hwn.</p> <p>Bydd SGC yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun ac yn monitro ac yn adolygu'r safonau y mae'n eu cyflawni, gyda'r nod o wella'r safon yn barhaus.</p>
<b>5.0</b>	<b>Cyswllt Uniongyrchol</b>
<b>5.1</b>	<p><b>Gohebiaeth Ysgrifenedig</b> Bydd SGC yn croesawu gohebiaeth ysgrifenedig (yn ysgrifenedig neu drwy e- bost) naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, a bydd yr ymateb yn cael ei wneud yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol.</p> <p>Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i lythyrau a dderbynnir at SGC yn yr iaith Gymraeg.</p>
<b>5.2</b>	<p><b>Cyfathrebu Dros y Ffôn</b> Bydd galwadau ffôn a dderbynnir gan SGC yn cael eu hateb yn Saesneg i ddechrau. Fodd bynnag, pe bai'n well gan alwyr siarad yn Gymraeg, byddwn yn trefnu i un o'n haelodau staff sy'n siarad Cymraeg ddychwelyd eu galwad.</p>
<b>5.3</b>	<p><b>Hyfforddiant</b> Bydd SGC yn hyrwyddo'r galw am hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg drwy ymgynghori â gwirfoddolwyr presennol a darpar wirfoddolwyr.</p>
<b>6.0</b>	<b>Delwedd Gyhoeddus SGC</b>
<b>6.1</b>	<p><b>Cyhoeddi</b> Bydd SGC yn ceisio sicrhau bod ei ddogfennau cyhoeddedig, ei ffurflenni a'i llenyddiaeth hyrwyddo ar gael yn ddwyieithog.</p>
<b>6.2</b>	<p><b>Gwefan</b> Mae gwefan SGC yn bennaf yn Saesneg. Fodd bynnag, mae rhannau allweddol o'r safle yn ddwyieithog. Mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu fel bod y gwaith o greu a chynnal gwefan gwbl ddwyieithog yn cael ei sefydlu.</p>
<b>6.3</b>	<p><b>Recriwtio a hysbysebu staff</b> Ar hyn o bryd mae gan bob swydd o fewn SGC "y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg" fel safon ddymunol. Os bydd gofynion y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn newid, yna bydd SGC yn diwygio'r rolau staff yn unol â hynny.</p>
<b>7.0</b>	<b>Gweithredu a Chadw Golwg ar Bolisi Iaith Gymraeg</b>

<b>7.1</b>	<b>Dysgu Cymraeg</b> Mae SGC yn annog staff i ddysgu Cymraeg a byddant yn cefnogi staff sy'n dymuno dysgu/gwella eu sgiliau iaith presennol, ar lefel ymarferol.
<b>7.2</b>	<b>Cyfieithu a Phenodi Cyfieithwyr</b> Mae SGC wedi ymrwymo i sicrhau bod cyfieithwyr yr elusen, yn fewnol neu'n allanol, bod ganddynt gymwysterau addas a'u bod yn gallu darparu gwasanaeth o ansawdd uchel.  Bydd SGC yn defnyddio sgiliau'r ysgol Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd i sicrhau bod safonau o'r safon uchaf, a sicrhau ein bod yn defnyddio'r dechnoleg cyfieithu ddiweddaraf.
<b>8.0</b>	<b>Cyfleoedd Gwirfoddoli Cymraeg</b>
<b>8.1</b>	Mae SGC wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli drwy gyfrwng y Gymraeg.
<b>9.0</b>	<b>Cwynion</b>
<b>9.1</b>	Gall unrhyw weithiwr sy'n teimlo nad yw wedi cael ei drin yn deg mewn perthynas â'i ddewis iaith godi hyn gyda'r weithdrefn gwyno SGC.

A Eard

G Piddington